Protocol Archwilio a Chraffu

Pwrpas:

- I egluro sianeli cyfathrebu rhwng Pwyllgorau Archwilio a Chraffu
- I wella rhannu gwybodaeth a galluogi'r ddwy swyddogaeth i wneud penderfyniadau amserlennu ac argymhellion gydag ymwybyddiaeth lawn o'r holl wybodaeth sydd ar gael i'r Awdurdod
- I sicrhau fod atgyfeiriadau rhwng y ddwy swyddogaeth yn cael eu diffinio'n glir ac yn ffurfiol
- I ganiatáu i Bwyllgorau Craffu ac Archwilio gyflawni eu cylch gorchwyl

1. Rhannu gwybodaeth

a) Gwahoddir Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio (CPA) a'r Rheolwr Gwasanaeth Technegol ac Archwilio (RhGTA) i fynychu'r Grŵp Cydlynu Craffu (GCC) bob chwe mis a gallant fynychu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen, yn amodol ar gytundeb Cadeirydd y GCC. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw:

- Rhoi cyfle i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio roi diweddariad i'r GCC am feysydd pryder a/neu faterion perthnasol sy'n codi o waith y Pwyllgor Archwilio
- Rhoi cyfle i'r GCC godi meysydd pryder fel meysydd posibl i'w cynnwys yn y Cynllun Archwilio Mewnol
- Trafod meysydd sy'n gyffredin yn Rhaglenni Gwaith i'r Dyfodol Craffu ac Archwilio

Gall materion sy'n codi o'r trafodaethau hyn gael eu dyrannu i'w hystyried gan y Pwyllgor Craffu priodol drwy anfon Ffurflen Dewis Testun at y Pwyllgor priodol.

b) Dylai adroddiadau ar gyfer Pwyllgorau Craffu gyfeirio at unrhyw faterion archwilio parhaus sy'n berthnasol i'r mater o dan ystyriaeth. Dylai Cadeiryddion Craffu ofyn i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn cyfarfodydd Galw Drosodd. Dylai Cadeiryddion Craffu hefyd ystyried gwahodd y RhGTA i gyfarfod y pwyllgor craffu.

c) Bydd Hwyluswyr Craffu yn dosbarthu Rhaglenni Gwaith diweddaraf y Pwyllgor i'r RhGTA a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu (bob mis, neu fel y caiff newidiadau eu gwneud).

d) Bydd y RhGTA yn dosbarthu adroddiadau Cynlluniau Archwilio Mewnol Interim i Hwyluswyr Craffu (bob chwarter). (Mae pob Cadeirydd ac Is-gadeirydd Craffu yn derbyn yr adroddiadau hyn fel rhan o bapurau agenda'r Pwyllgor Archwilio.) .

2. Ceisiadau gan y Pwyllgor Archwilio am eitemau i'w hystyried gan Bwyllgorau Craffu

a) Os yw'r Pwyllgor Archwilio yn cytuno i gyfeirio mater at Bwyllgor Craffu, dylid cofnodi hyn fel penderfyniad. Yn unol ag ymarfer sefydledig pwyllgorau craffu, dylai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio gyflwyno Ffurflen Dewis Testun i'r Pwyllgor priodol i ofyn i'r mater gael ei gynnwys yn ei raglen waith. Pwrpas hyn yw sicrhau fod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth ddigonol ynglŷn â natur y pryder a bod gwerth y craffu, cysylltiad â blaenoriaethau'r Cyngor a'r canlyniadau disgwyliedig yn cael eu adnabod.

Os nad yw'r Ffurflen Dewis Testun yn nodi Pwyllgor Craffu penodol bydd y GCC yn penderfynu hynny.

b) Bydd yr Hwylusydd Craffu yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r RhGTA ym mha gyfarfod y bydd y Pwyllgor Craffu yn ystyried y cais. Bydd disgwyl i Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a/neu'r RhGTA fynychu i siarad am y cais.

c) Bydd yr Hwylusydd Craffu yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r RhGTA am ganlyniad y cais. Os yw'r eitem wedi'i chynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu, bydd yr hysbysiad hwn yn cynnwys dyddiad y cyfarfod i ystyried y mater a gwahoddiad i fynychu. Bydd yr adroddiadau ar gael 3 diwrnod cyn y cyfarfod.

d) Bydd yr Hwylusydd Craffu yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r RhTA yn ysgrifenedig o'r cynnydd a wnaed / canlyniad y broses graffu a bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu rhannu unwaith y byddant ar gael.

e) Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno'r cynnydd a/neu'r canlyniadau i'r Pwyllgor Archwilio ac mae'n bosibl y bydd yn gwahodd y Cadeirydd Craffu i fynychu os yw hynny'n briodol.